WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Ionawr 2011



## Adroddiad Gwella Blynyddol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

Ysgrifennir yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. (Ceir eglurhad o swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yn Atodiad 1). Adroddiad newydd ydyw y mae'n ofynnol iddo ei gyhoeddi o ran pa mor dda y mae cynghorau, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub Cymru yn gwella'u gwasanaethau. Gyda chymorth arolygwyr eraill rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni a sut mae'n gwneud hynny. Rydym hefyd wedi defnyddio canlyniadau'r broses asesu cymheiriaid[1] sydd ar waith o fewn awdurdodau tân ac achub.

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn cyfleu'r darlun hwnnw a phob blwyddyn byddwn yn llunio adroddiad i roi gwybod i chi am y cynnydd y mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (yr Awdurdod) wedi'i wneud. Nid ydym wedi ymdrin â phob gwasanaeth y mae'r Awdurdod yn ei ddarparu. Rydym wedi canolbwyntio ar nifer fach o bethau, yn arbennig y pethau hynny y mae'r Awdurdod wedi dweud yw ei flaenoriaethau o ran gwella.

Rydym am gael eich barn ar y gwasanaethau y mae'r Awdurdod yn eu darparu yn eich ardal chi a chewch gyfle i gyflwyno sylwadau yn y dyfodol. Yn y cyfamser hoffem wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall.  Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost at info@wao.gov.uk neu drwy ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

Cynhwysai tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru a’m cynorthwyodd i lunio’r adroddiad hwn Lisa Williams a Jackie Joyce, o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau gwella Cymru (cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) â gofynion gwella Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Archwilydd Cyffredinol Cymru a’i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at Archwilydd Cyffredinol Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.
Rhif ffôn: 02920 320500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu gweler y wefan www.wao.gov.uk

©Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2011

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio’n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

1 Cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru drefniadau newydd ar gyfer asesu perfformiad gweithredol awdurdodau tân ac achub ym mis Tachwedd 2006. Mae'r broses asesu'n cynnwys cynnal hunanasesiad yn erbyn fframwaith a ddarperir yn ganolog wedi'i chyfuno ag adolygiad a gynhelir gan dîm asesu cymheiriad sy'n cynnwys swyddogion o awdurdodau tân ac achub eraill

# Cynnwys


Pa fath o ardal y mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ei gwasanaethu? 04

A yw'r Awdurdod yn cael ei reoli'n dda? 06

A yw'r Awdurdod yn gwybod beth mae angen iddo ei wneud i wella? 08

A yw'r Awdurdod yn gwasanaethu pobl yn dda? 10

A yw'r Awdurdod yn helpu i leihau tebygolrwydd ac effaith tanau a damweiniau traffig ar y ffyrdd drwy ei weithgareddau atal ac amddiffyn? 11

A yw'r Awdurdod yn ymateb yn dda i danau a bygythiadau eraill i ddiogelwch? 16

Beth y dylai'r Awdurdod ei wneud? 19


**Atodiadau**


Atodiad 1 - Gwybodaeth am Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn 20

Atodiad 2 - Gwybodaeth ddefnyddiol am Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru 22

Atodiad 3 - Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol 24

Atodiad 4 - Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig at Aelodau Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru 25

Atodiad 5 - Amcanion Gwella Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru 27

Atodiad 6 - Crynodeb o ganfyddiadau Tîm yr Asesiad Cymheiriaid 30


Atodiad 7 - Cyfeiriadau 34

# Pa fath o ardal y mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ei gwasanaethu?

1 Yn yr adroddiad hwn rydym wedi defnyddio'r term 'Awdurdod' i gyfeirio ar y cyd at aelodau a staff sy'n gyfrifol am arwain, rheoli a darparu gwasanaethau Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth Cymru. Mae'r Awdurdod yn cynnwys chwe awdurdod unedol, sef Castell-nedd Port Talbot, Ceredigion, Dinas a Sir Abertawe, Powys, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin (gweler Arddangosyn 1).

2 Mae'r Awdurdod yn gwasanaethu ardal sy'n mesur tua 4,500 milltir sgwâr (11,796 cilometr sgwâr) sy'n cyfateb i ddwy ran o dair o holl dir Cymru. Yn ôl y disgwyl gydag ardal mor fawr, mae amrywiaeth eang o risgiau sy'n amrywio o ddiwydiannau petrocemegol yn Aberdaugleddau a Llansawel i'r risgiau sy'n gysylltiedig â chytrefiadau poblog iawn Abertawe a Phort Talbot. Hefyd, ceir ardaloedd

**Arddangosyn 1: Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru**



mawr â chymunedau amaethyddol, gwledig a nifer fawr o dwristiaid. Mae gan yr Awdurdod arfordir hir a dyfrffyrdd mewndirol yn ei ardal weithredu.

3 Yn ôl yr amcangyfrifon diweddaraf, mae 875,000 o bobl yn byw yn ardal yr Awdurdod mewn 384,000 o aelwydydd. Mae 123,000 o'r aelwydydd hyn, sef 32 y cant o'r holl aelwydydd, yn cynnwys pobl sy'n byw ar eu pen eu hunain.

4 Yn 2007 roedd tua 15,677 cilometr o ffyrdd yn ardal yr Awdurdod. Mae lefel y traffig ar brif ffyrdd yr Awdurdod yn cyfateb i gyfanswm o tua 8.2 biliwn o gilometrau cerbyd ac mae'r cyfraddau uchaf yn Sir Gaerfyrddin ac Abertawe. I osod y ffigur hwn yn ei gyd-destun, mae gan ddinas Caerdydd ei hun gyfradd o bron 3 biliwn o gilometrau cerbyd.

5 Canfu Arolwg Iechyd Cymru fod canran yr oedolion a ymatebodd i'r arolwg yn y chwe awdurdod unedol ac a ddywedodd eu bod yn ysmygu yn amrywio o 22 i 25 y cant o gymharu â chyfartaledd Cymru o 24 y cant.

6 Mae proffil oedran poblogaeth yr Awdurdod, a luniwyd ar sail yr amcangyfrifon diweddaraf, yn dangos bod 17 y cant o'r boblogaeth yn blant (0 i 15 oed) yn 2009 a bod 20 y cant yn bobl dros 65 oed. Mae'r ddau ffigur hyn yn debyg i gyfartaledd Cymru fel y gallech ddisgwyl o gofio maint ardal yr Awdurdod.

7 Ceir rhagor o wybodaeth am yr Awdurdod yn Atodiad 2.

ardal ddaearyddol
11,796 km$^2$
/////////////

poblogaeth
875,000
/////////////

17% yn 0-15 oed
20% yn >65 oed
/////////////

# A yw'r Awdurdod yn cael ei reoli'n dda?

8 Ym mis Gorffennaf llynedd lluniodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad, sef yr Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol, sy'n cynnwys cryn dipyn o fanylion am drefniadaeth yr Awdurdod a sut y caiff ei reoli. Nodir ein canfyddiadau yn Atodiad 3. Os hoffech ddarllen yr Adroddiad Asesu Corfforaethol i gyd mae ar gael ar wefan yr Awdurdod neu ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru yn www.wao.gov.uk.

9 Casgliad cyffredinol yr adroddiad oedd: 'mae arweinyddiaeth gref a threfniadau corfforaethol da ar waith, sy'n debygol o fod yn sail gadarn i wella perfformiad'. Hynny yw, mae'r Awdurdod yn debygol o wella pethau ar gyfer y bobl sy'n byw yn ei ardal am fod ganddo arweinyddiaeth gref a'i fod yn cael ei reoli'n dda ar y cyfan.

10 Roedd negeseuon allweddol yr adroddiad fel a ganlyn:

- mae gan yr Awdurdod arweinyddiaeth gref a chreadigol;
- caiff yr Awdurdod ei redeg yn dda ar y cyfan ond mae angen iddo wella ei waith cynllunio ariannol ar gyfer y tymor hwy;
- mae'n cymryd camau rhagweithiol i weithio mewn partneriaeth ag eraill;
- mae'r Awdurdod wedi gwella ei brosesau rheoli pobl ond ceir heriau o hyd, yn arbennig o ran hyfforddi a datblygu.

11 Ers hynny mae'r Awdurdod wedi gwneud rhywfaint o gynnydd yn y meysydd hyn, gan gynnwys:

- cyflwyno ffyrdd newydd o gofnodi a nodi anghenion allweddol staff o ran hyfforddiant;
- ymestyn y cyfnod cynllunio ariannol i dair blynedd o fis Ebrill 2011;
- diweddaru ei gronfa ddata eiddo fel sail i'r Cynllun Rheoli Asedau.

12 Ers i ni lunio'r Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol mae'r pwysau wedi cynyddu ar bob gwasanaeth cyhoeddus i wneud y defnydd gorau posibl o'i holl adnoddau. Yn 2009-10, gwariant refeniw gros yr Awdurdod oedd £47.5 miliwn, sydd gyfystyr â £54 fesul preswylydd. Yn y flwyddyn honno, gwariodd yr Awdurdod £3.9 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd. Rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ei farn ar gyfrifon yr Awdurdod yn ddiweddar; roedd o'r farn bod y datganiadau ariannol yn foddhaol a bod arian wedi cael ei wario mewn ffordd briodol. Mae Atodiad 4 yn rhoi mwy o fanylion.

13 Mae cyllideb yr Awdurdod wedi cael ei rheoli'n dda dros y blynyddoedd diwethaf ac ar hyn o bryd mae'n rhagweld tanwariant o £1.4 miliwn ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol (2010-11). Mae hyn yn gosod sail gadarn i'r Awdurdod wrth iddo wynebu cyfnod o newid sylweddol a thoriadau ariannol, gan fod ganddo hanes da o sicrhau y caiff ei wasanaethau eu darparu gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddo.

14 Mae'r Awdurdod wedi bod yn ymwybodol ers cryn amser bod angen iddo sicrhau ei fod yn defnyddio'r adnoddau sydd ganddo mor effeithiol â phosibl. Mae'r Awdurdod yn gwneud paratoadau synhwyrol a sefydlodd Weithgor Cyllidebu a wnaeth ystyried yr holl opsiynau posibl o ran cyllid a gwasanaeth a gododd yn sgîl y Rhaglen Adolygu Gwasanaethau. Nod ei Gyllideb ar gyfer 2011-12 yw sicrhau £1.23 miliwn o arbedion effeithlonrwydd drwy amrywiaeth o weithgareddau a ddatblygwyd drwy'r Rhaglen Adolygu Gwasanaethau a'r Gweithgor Cyllidebu ac a gafodd gytundeb yr Awdurdod. Mae ffigurau dangosol Llywodraeth y Cynulliad yn dangos mwy o leihad mewn termau real yn arian refeniw yr Awdurdod ar gyfer 2012-13 a 2013-14.

15 Yn 2009, gallai 28 y cant o boblogaeth ardal yr Awdurdod siarad Cymraeg o gymharu ag ychydig llai na 26 y cant o gyfanswm poblogaeth Cymru. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg (y Bwrdd) yn gweithio gydag awdurdodau tân ac achub i'w helpu i ddatblygu eu cynlluniau iaith Gymraeg statudol sy'n amlinellu'r ffordd y maent yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg. Yr awdurdodau sy'n eu darparu sy'n bennaf cyfrifol am ystod a safon y gwasanaethau hynny, gan weithio yn unol â fframwaith statudol a chanllawiau'r Bwrdd. Disgwylir i bob awdurdod tân ac achub gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i'r Bwrdd sy'n egluro sut y gweithredwyd ei gynllun. Mae hyn yn galluogi'r Bwrdd i gynnig cyngor ar sut y gallai'r Awdurdod wella'i drefniadau lleol. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnal ei adolygiadau ei hun i asesu'r ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg ac ysgogi gwelliant.

16 Mae'r Bwrdd wedi canmol yr Awdurdod am roi systemau monitro newydd ar waith i gofnodi nifer y galwadau ffôn Cymraeg a Saesneg y mae'n eu derbyn, yn ogystal â nifer y ceisiadau a geir am Archwiliadau Atal Tân drwy gyfrwng y Gymraeg a nifer yr archwiliadau hynny a gynhelir. Canfu'r Bwrdd fod gwefan yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg ac eithrio dau fater bach. Mae'r Bwrdd wedi atgoffa'r Awdurdod i sicrhau fod yr holl ddeunydd Cymraeg a Saesneg sydd yn ymddangos ar y wefan, yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd.

# A yw'r Awdurdod yn gwybod beth mae angen iddo ei wneud i wella?

17 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod tân ac achub gyhoeddi ei gynlluniau ar gyfer gwella ei wasanaethau a sut y bydd yn gwneud hynny.

18 Gweledigaeth yr Awdurdod yw bod yn sefydliad o'r radd flaenaf ac mae ganddo nifer o amcanion strategol hirsefydlog a gyhoeddwyd yn ei Gynllun Strategol ar gyfer 2010-15. Ar y cyfan, mae'r rhain yn gyson â blaenoriaethau strategol cenedlaethol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer awdurdodau tân ac achub a'u nod yw:

- achub bywydau ac amddiffyn cymunedau;
- meithrin ymddiriedaeth a pharch pob cymuned;
- sicrhau bod pobl yn gweld yr Awdurdod fel rhywbeth mwy na gwasanaeth brys;
- cysylltu’r adnoddau â blaenoriaethau;
- ymdopi gyda'n cyllideb;
- chwilio am adnoddau amgen a'u defnyddio;
- sicrhau effeithlonrwydd o un flwyddyn i'r llall;
- rheoli pobl yn effeithiol;
- datblygu'n llawn drefniadau ar gyfer cynllunio i leihau risg;
- datblygu gwaith partneriaeth effeithiol;
- datblygu’r gweithlu fel bod staff yn effeithiol ac yn teimlo fel pe baent wedi'u hymrymuso.

19 Rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi ei amcanion gwella erbyn diwedd mis Hydref cyn y flwyddyn y maent yn berthnasol iddi ac eleni, cyhoeddodd ei gyfres gyntaf o amcanion gwella ar gyfer y flwyddyn yn dechrau ym mis Ebrill 2011. Mae'r amcanion gwella yn seiliedig ar bum thema allweddol: rheoli risg, rheoli pobl, cydweithio, rheoli adnoddau a rheoli perfformiad. Mae’r amcanion gwella wedi eu nodi yng Nghynllun Gweithredu Blynyddol 2011-12 (y Cynllun), ac fe geir crynodeb ohonynt isod a mwy o wybodaeth yn Atodiad 5:

- Gwerth am Arian: Rhoi canlyniadau allweddol Rhaglen Adolygu Gwasanaethau 2010-11 ar waith er mwyn lleihau costau a darparu gwasanaethau'n fwy effeithlon.
- Ymateb Brys: Mae trefniadau effeithiol o ran diogelwch a lles cyflogeion yn ein helpu i ateb yr heriau a wynebir mewn digwyddiadau brys a bydd trefniadau cadarn o ran hyfforddiant ac ymateb yn helpu i gyflawni hyn.
- Cydnerthu Cymunedau: Parhau i ddatblygu ein gallu i ymateb i ddigwyddiadau eithriadol sy'n effeithio ar ein cymunedau a'r Gwasanaeth drwy weithio gydag asiantaethau partner i ddatblygu ac ymarfer cynlluniau brys.
- Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd: Gwnaethom gyhoeddi ein Strategaeth ar Gynaliadwyedd a'r Amgylchedd ym mis Mehefin 2009 gan nodi ein gweledigaeth ar gyfer sut y byddwn yn cyfrannu at yr agenda hon.
- Gwaith Partneriaeth - Datblygu ein gwaith partneriaeth strategol er mwyn sicrhau y caiff ein nodau o ran diogelwch cymunedol eu cyflawni.

20 Roeddem am sicrhau bod yr Awdurdod yn gwybod yn iawn sut y bydd pobl ar eu hennill os bydd yn gwella fel y bwriedir. Mae themâu'r amcanion gwella yn glir ac er nad oes unrhyw fesurau llwyddiant wedi'u diffinio hyd yma, mae'n gweithio'n galed i sicrhau y bydd mesurau ar waith erbyn mis Ebrill 2011. Mae'n cydnabod y bydd rhai o'i amcanion yn anodd eu mesur yn nhermau canlyniadau ac mae wedi sefydlu Grŵp Cyflawni ar gyfer Lleihau Risg a fydd yn monitro'r broses o gyflawni'r amcanion gwella ac yn sicrhau y caiff tystiolaeth ansoddol a meintiol ei chasglu i werthuso canlyniadau cymunedol. Dros y misoedd nesaf, byddwn yn astudio'r trefniadau ar gyfer monitro'r broses o gyflawni'r amcanion gwella.

21 Gwnaethom edrych hefyd ar ba mor dda yr oedd yr Awdurdod wedi cynnwys pobl leol a'r rhai sy'n gweithio iddo a chydag ef, wrth bennu'r hyn y dylid ei flaenoriaethu. Canfuwyd y cafodd y blaenoriaethau eu datblygu gan weithgor o aelodau ac ymgynghorwyd arnynt dros gyfnod o 12 wythnos yn ystod yr haf gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau i gael barn arnynt. Roedd y dulliau hyn yn cynnwys mynd i ddigwyddiadau cymunedol, defnyddio paneli dinasyddion, cyfarfod â staff, dosbarthu rhyw 1,300 o gopïau o'r Cynllun a defnyddio ei wefan a gwefannau rhwydweithio cymdeithasol. Er y cafwyd 115 o ymatebion i'r ymgynghoriad mae'r Awdurdod wedi cydnabod bod angen adolygu'r ffordd y mae'n gofyn cwestiynau am flaenoriaethau o ran gwasanaeth oherwydd ni wnaeth yr ymarfer ymgynghori diwethaf helpu i lywio blaenoriaethau ymhellach.

22 Yn olaf gofynnwyd pa mor dda y bydd cynlluniau'r Awdurdod yn cefnogi ei ymdrechion i wella ac a allai fforddio talu am y gwelliannau hyn. Mae'r Awdurdod wedi cymryd nifer o gamau ac yn parhau i wneud hynny, gan gynnwys:

- Rhaglen Adolygu Gwasanaethau fanwl i nodi amrywiaeth o opsiynau er mwyn ymateb i'r toriadau ariannol;
- datblygu cynllun ariannol pum mlynedd gan ganolbwyntio ar flwyddyn gyntaf y cynllun (2011-12);
- datblygu trefniadau diwygiedig ar gyfer cynllunio busnes;
- datblygu trefniadau rheoli perfformiad, gan gynnwys datblygu mesurau a rhoi Ffynnon[2] ar waith ym mis Ebrill 2011.

23 Canfuwyd bod y datblygiadau uchod wedi'u cynllunio'n ofalus a'u bod yn agweddau ar ddull cydlynol o reoli perfformiad a chynllunio.

24 Mae'n rhy gynnar dweud p'un a fydd y dull newydd hwn o weithredu yn arwain at gyflawni amcanion gwella'r Awdurdod a byddwn yn edrych ar y mater hwn yn fanylach yn ystod y flwyddyn nesaf.

25 Mae angen i bob awdurdod tân ac achub gael gwybodaeth dda a'i defnyddio'n dda er mwyn darparu gwasanaethau da a'u gwneud hyd yn oed yn well. Nododd adroddiad diweddar gan y Tîm Asesu Cymheiriaid (PAT) fod yr Awdurdod yn cydnabod nad yw data presennol ei broffil cymunedol mor gynhwysfawr ag yr hoffai a'i fod yn gweithio i wella hyn. Ceir mwy o wybodaeth am adroddiadau PAT yn Atodiad 6. Dengys ein gwaith hefyd bod newidiadau'n cael eu gwneud i'r systemau ar gyfer casglu a chofnodi gwybodaeth am berfformiad.

26 Wrth archwilio'r data a'r dangosyddion perfformiad diweddaraf, gwelsom fod angen gwella ansawdd a chywirdeb y wybodaeth a gofnodir. O blith yr 17 o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol y mae'n ofynnol i'r Awdurdod gasglu gwybodaeth a rhoi gwybodaeth amdanynt i Lywodraeth y Cynulliad, cywirwyd wyth ohonynt yn ystod yr archwiliad. Canfuwyd hefyd bod y wybodaeth a ryddheir yn gyhoeddus yn tueddu i ddangos yr hyn y mae'r Awdurdod yn ei wneud yn hytrach na dangos a yw'n gwneud gwahaniaeth i ganlyniadau pobl, ond mae'r Awdurdod yn bwriadu newid hyn o fis Ebrill 2011.

27 Mae'n rhy gynnar i ni ddweud p'un a gaiff y cynlluniau eu cyflawni ai peidio. Byddwn yn edrych ar y cynlluniau dros y misoedd nesaf ond gallwn ddweud bod yr Awdurdod yn gweithredu mewn modd synhwyrol.Os caiff penderfyniadau anodd eu gwneud am strwythurau darparu gwasanaethau a'u rhoi ar waith yn llwyddiannus, mae'r Awdurdod yn debygol o leihau costau a chyflawni ei amcanion gwella.

2 Meddalwedd Gymreig yw Ffynnon, a gafodd ei chaffael yn genedlaethol, sy'n bodloni gofynion awdurdodau lleol, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol a'u partneriaid o ran rheoli perfformiad

# A yw'r Awdurdod yn gwasanaethu pobl yn dda?

28 Drwy Asesiad Gwella'r Archwilydd Cyffredinol gobeithiwn yn raddol greu darlun o ba mor dda y mae'r Awdurdod yn gwasanaethu pobl leol. Er mwyn gwneud hynny, bob blwyddyn byddwn yn archwilio'r gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod a rhai o'i amcanion ar gyfer gwella fel y maent yn berthnasol i'r dyletswyddau statudol a osodwyd arno gan ddeddfwriaeth a'r weledigaeth a bennir yn Fframwaith Cenedlaethol Llywodraeth y Cynulliad. Credwn, gyda'i gilydd, fod yr agweddau canlynol yn cwmpasu'r prif bethau y mae awdurdodau tân ac achub yn eu gwneud:

- A yw'r Awdurdod yn helpu i leihau tebygolrwydd ac effaith tanau a damweiniau traffig ar y ffyrdd drwy ei weithgareddau atal ac amddiffyn?
- A yw'r Awdurdod yn ymateb yn dda i danau a bygythiadau eraill i ddiogelwch?

29 Yn yr asesiad eleni, rydym wedi ystyried yr amcanion gwella newydd ar gyfer 2011-12 a'r meysydd allweddol ar gyfer 2010-11. Byddwn yn astudio'r amcanion gwella yn fanylach y flwyddyn nesaf er mwyn asesu a sefydlwyd llinell sylfaen o ran perfformiad ac, os yw'n bosibl, i ba raddau y mae perfformiad wedi gwella.

# A yw'r Awdurdod yn helpu i leihau tebygolrwydd ac effaith tanau a damweiniau traffig ar y ffyrdd drwy ei weithgareddau atal ac amddiffyn?

30 Ym mis Rhagfyr 2010 lansiodd Llywodraeth y Cynulliad strategaeth newydd i addysgu plant a phobl ifanc am ddiogelwch tân ac atal tân. Mae'r strategaeth yn nodi sut y bydd yr awdurdodau'n addysgu pobl ifanc am beryglon tân a digwyddiadau sy'n gysylltiedig â thân. Mae hefyd yn anelu at atal ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau sy'n gysylltiedig â thân a gyflawnir gan blant a phobl ifanc, fel galwadau ffug neu danau bwriadol. Mae hyn yn ategu'r flaenoriaeth a bennwyd ar gyfer yr Awdurdod gan Lywodraeth y Cynulliad i achub bywydau ac amddiffyn cymunedau ac er mwyn ei helpu i wneud hyn, darparwyd £1 miliwn i'r Awdurdod yn 2009-10 ar gyfer gwaith ataliol.

31 Er nad oes unrhyw amcanion gwella ar gyfer 2011-12 sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r agwedd hon, mae'r meysydd allweddol canlynol yn cefnogi'r flaenoriaeth hon ar gyfer 2010-11:

- gwella diogelwch ar y ffyrdd;
- targedu a chynnal archwiliadau diogelwch tân mewn cartrefi;
- lleihau tanau glaswelltiroedd bwriadol.

32 Mae'r Awdurdod wedi disgrifio sut y bydd yn helpu i achub bywydau ac amddiffyn pobl yn ei Strategaeth Lleihau Risg yn y Gymuned. Mae hon yn amlinellu amrywiaeth o weithgareddau a gynlluniwyd i atal tanau rhag dechrau ac, os byddant yn dechrau, i sicrhau eu bod yn cael cyn lleied o effaith â phosibl. Rydym wedi ystyried y meysydd craidd, sef lleihau tanau domestig, lleihau tanau annomestig, lleihau tanau bwriadol/troseddau, gwaith ieuenctid a damweiniau traffig ar y ffyrdd yn fanylach isod. Hefyd, adolygodd Tîm yr Asesiad Cymheiriaid weithgareddau diogelwch cymunedol yr Awdurdod yn ystod hydref 2010 a cheir crynodeb o'i ganfyddiadau yn Atodiad 6.

## Lleihau tanau domestig

33 Ledled Cymru nifer fach o bobl sydd wedi marw mewn tân mewn tŷ ac mae'r sefyllfa wedi parhau felly dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf; bu farw 14 o bobl yn 2006-07 cyn cynyddu i 22 yn 2007-08 a syrthio drachefn i 18 yn 2009-10. Yn yr un modd, mae nifer yr anafiadau a achoswyd yn ystod tanau domestig wedi lleihau yng Nghymru o 358 yn 2004-05 i 185 yn 2009-10.

34 Er mwyn lleihau tanau mewn cartrefi, gall pob deiliad tŷ gael archwiliad diogelwch tân yn y cartref er mwyn canfod risgiau a chael cyngor ac awgrymiadau ar sut i wneud ei gartref yn fwy diogel. Mae'r Awdurdod yn targedu'r unigolion hynny sy'n wynebu'r risg fwyaf o dân yn eu cartref ond mae'n cydnabod y gellir gwneud gwelliannau. Mae trefniadau mewn grym i weithio gyda rhai partneriaid allweddol i ganfod y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf a hefyd i gynnal archwiliadau diogelwch tân mewn cartrefi. Y llynedd (2009-10) cynhaliwyd dros 20,000 o'r archwiliadau hyn a phennwyd targed o 24,000 ar gyfer y flwyddyn hon, sef 2010-11. Mae'r targed yn cyfateb i chwech y cant o aelwydydd yn ardal yr Awdurdod.

35 Mae'r mesurau hyn yn cyfrannu at lwyddiant oherwydd, ers 2004-05:

- mae nifer yr anafiadau a achoswyd gan danau mewn anheddau  wedi gostwng 165 y cant (o 122 i 42 yn 2009-10);
- mae nifer y tanau mewn anheddau yr ymatebwyd iddynt wedi gostwng 15 y cant (o 778 o achosion yn 2004-05 i 661 yn 2009-10);
- mae nifer y tanau damweiniol mewn anheddau yr ymatebwyd iddynt wedi gostwng yn gyson tua 15 y cant (o 690 yn 2004-05 i 584 yn 2009-10);
- bu gostyngiad cyson o ryw 13 y cant yn nifer y tanau a ddechreuwyd yn fwriadol mewn cartrefi (o 88 yn 2004-05 i 77 yn 2009-10).

36 Fodd bynnag, er bod y mesurau uchod yn dangos y bu rhywfaint o lwyddiant, mae'r Awdurdod yn wynebu heriau o hyd i leihau nifer y marwolaethau o ganlyniad i danau mewn cartrefi gan fod y rhain wedi cynyddu o bump yn 2004-05 i saith yn 2009-10. Mae'r Awdurdod yn poeni, er gwaethaf yr ymgyrchoedd cyhoeddus a'r gweithgareddau a ddisgrifir uchod, nad oedd larwm mwg wedi'i osod mewn bron hanner (44 y cant) y cartrefi y bu'n rhaid mynd iddynt yn 2009-10 er mwyn trin tanau. Eleni mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r gwaith hwn gan fabwysiadu dull sy'n fwy seiliedig ar risg a datblygu gwybodaeth a fydd yn ei alluogi i fonitro pa mor dda mae'r Awdurdod cyfan yn perfformio yn un o'i brif feysydd blaenoriaeth.

37 Mae'r Awdurdod, ynghyd â'r ddau awdurdod tân ac achub arall yng Nghymru, wedi bod yn chwarae rhan allweddol yn y drafodaeth sy'n mynd rhagddi ynghylch manteision systemau chwistrellu. Maent wedi ymgyrchu ers 2007 am newid y ddeddfwriaeth er mwyn ei gwneud yn ofynnol gosod systemau chwistrellu preswyl mewn eiddo domestig. Cyhoeddwyd Mesur Aelod Preifat, sef Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru) i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus arno ym mis Gorffennaf 2010 ac mae Pwyllgor Deddfwriaeth y Cynulliad wrthi'n craffu ar y Mesur arfaethedig.

## Lleihau tanau annomestig

38 Ledled Cymru, dau berson sydd wedi marw mewn tanau annedd annomestig damweiniol yn ystod y chwe blynedd diwethaf. Mae nifer y bobl a anafwyd mewn tanau annomestig wedi lleihau hefyd o 59 yn 2004-05 i 22 yn 2009-10.

39 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod orfodi darpariaethau Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 a gwna hynny'n gyffredinol drwy archwilio safleoedd busnes i sicrhau bod mesurau diogelwch tân digonol ar waith. Gall hefyd roi cyngor a chymryd camau gorfodi pan ystyrir bod angen gwneud hynny, er enghraifft, os ceir risg ddifrifol nad yw'n cael ei rheoli.

40 Mae tua 33,400 o safleoedd annomestig yn ardal yr Awdurdod ond nid yw'r rhain i gyd wedi'u cynnwys yng nghofnodion yr Awdurdod ar hyn o bryd ac felly nid ydynt yn cael eu harchwilio o dan y gorchymyn diogelwch tân. Mae'r Awdurdod wrthi'n adolygu gwybodaeth a ddarparwyd yn ddiweddar gan y cynghorau sy'n rhan ohono am safleoedd busnes ac yn diweddaru ei gofnodion i sicrhau ei fod wedi nodi'r holl safleoedd â lefel uchel o risg. Defnyddir manylion a gesglir am y safleoedd yn ystod archwiliadau i roi gwybodaeth i griwiau a all gael eu galw i argyfwng ar y safle a thrwy hynny leihau'r risgiau a wynebir gan ddiffoddwyr tân. Ers 2009 cynhaliwyd dros 7,500 o arolygiadau ac archwiliadau ar safleoedd busnes a chymerwyd camau gweithredu mewn perthynas â thua 80 o'r safleoedd hyn, gan gynnwys camau erlyn.

41 Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu canllawiau cenedlaethol Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân (CFOA) ar leihau galwadau diangen a signalau tân diangen. Mae'n ceisio lleihau nifer y galwadau diangen y mae'n eu cael gan safleoedd â systemau synhwyro tân awtomatig oherwydd mae anfon injan/cyfarpar tân i safle pan nad oes argyfwng yn wastraff adnoddau a gall hefyd annog pobl i anwybyddu larymau a pheidio â gwacáu adeiladau. Mae nifer y galwadau diangen mewn adeiladau annomestig wedi cynyddu o 1,950 yn 2004-05 i 2,302 yn 2009-10 ond ers 2005-6 mae

nifer y galwadau diangen wedi aros yn gymharol sefydlog ar 2,300 y flwyddyn. Mae'r Awdurdod wedi dynodi y gellir priodoli rhan o'r cynnydd mewn digwyddiadau i 'broblemau cychwynnol' â gosodiadau canfod tân awtomatig (AFD) newydd, yn enwedig ar safleoedd mwy o faint megis ysbytai a phrifysgolion, a'r cynnydd yn y safleoedd a adeiladwyd o'r newydd sydd â gosodiadau canfod tân awtomatig.

42 Mae'r Awdurdod yn ymgynghorai statudol ar gyfer nifer o faterion gan gynnwys tai, trwyddedu ac adeiladau. Er enghraifft, ymgynghorir ag ef mewn perthynas â Rheoliadau Adeiladu[3], sy'n ymwneud â sicrhau bod adeiladau'n ddiogel, yn iach, yn hygyrch ac yn gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau nawr ac yn y dyfodol.

43 Mae'r mesurau hyn yn cyfrannu at lwyddiant oherwydd, ers 2004-05:

- bu un marwolaeth mewn tân annedd annomestig damweiniol yn ystod y chwe blynedd diwethaf (yn 2009-10);
- mae nifer y bobl a anafwyd wedi lleihau o 27 yn 2004-05 i saith yn 2009-10;
- bu gostyngiad sylweddol o tua 36 y cant yn nifer y tanau annomestig yr ymatebwyd iddynt (o 497 i 315 yn 2009-10) sy'n well na chyfartaledd Cymru yn ystod y cyfnod hwn (gostyngiad o 21 y cant).

## Lleihau tanau bwriadol a throseddau

44 Mae nifer y tanau bwriadol yng Nghymru wedi lleihau o draean gan syrthio o 19,709 yn 2004-5 i 12,902 yn 2009-10. Yn ystod 2009-10, roedd mwy na dwy ran o dair o'r holl danau yr ymatebwyd iddynt ledled Cymru wedi'u dechrau'n fwriadol.

45 Yn yr Awdurdod hwn, roedd ychydig dros hanner (56 y cant) y tanau yr ymatebwyd iddynt wedi'u dechrau'n fwriadol yn ystod 2009-10. Mae'r ffigur hwn wedi gwella ers 2004-05 pan roedd 65 y cant o'r tanau yr ymatebwyd iddynt wedi'u dechrau'n fwriadol. Mae'r ffigurau hyn yn is na'r gyfradd ar gyfer Cymru gyfan, sef 75 y cant yn 2004-05 a 67 y cant yn 2009-10.

46 Cyflawnir gwaith yr Awdurdod o ran tanau bwriadol a throseddau tân gan y Tîm Atal Tanau Bwriadol a ariennir gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae nifer o fentrau'n ceisio mynd i'r afael â thanau bwriadol, gan gynnwys:

- Y Tîm Cefn Gwlad a Choedwigaeth (RaFT) arloesol ac amlasiantaeth sy'n targedu tanau bwriadol a mathau eraill o ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n effeithio ar gymunedau gwledig. Dyma'r unig dîm o'i fath yn y DU a chyrhaeddodd rownd derfynol Gwobrau Rhagoriaeth Cymru yn 2010[4].
- Ymweld ag ysgolion cynradd i annog plant i roi gwybod am achosion o danau bwriadol yn eu hysgol (Sgwad Diogelwch).
- Cynnal rhaglen o archwiliadau mewn ysgolion ac adeiladau cyhoeddus i helpu i sicrhau y gall yr adeiladau hyn wrthsefyll ymosodiadau gan fandaliaid a rhai sy'n dechrau tanau'n fwriadol.

3 Mae Rheoliadau Adeiladu'n pennu safonau ar gyfer dylunio ac adeiladu sy'n gymwys i'r rhan fwyaf o adeiladau newydd a llawer o addasiadau i adeiladau presennol yng Nghymru a Lloegr.

4 Cynllun gwobrwyo yw Rhagoriaeth Cymru a gaiff ei redeg gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

- Cynnal cysylltiadau agos â'r chwe Thîm Troseddau Ieuenctid yn ardal yr Awdurdod er mwyn galluogi pobl ifanc i gymryd rhan mewn cynlluniau ieuenctid amrywiol fel Phoenix, sef rhaglen cynnwys ieuenctid ar gyfer troseddwyr ifanc (cynhaliwyd 70 o gyrsiau Phoenix yn ystod 2009-10).

47 Mae'r mesurau hyn yn cyfrannu at lwyddiant oherwydd:

- roedd staff y ganolfan ddiogel yr aeth PAT iddi o'r farn bod yr Awdurdod, drwy raglen Phoenix, yn gwneud cyfraniad amhrisiadwy o ran gweithio gyda throseddwyr ifanc;
- mae nifer y marwolaethau a achoswyd gan danau bwriadol yn isel iawn, 14 i gyd ers 2004-05 gyda thair marwolaeth yn 2009-10;
- mae nifer yr anafiadau a achoswyd gan danau bwriadol yn fach ond bu lleihad sylweddol o 24 o anafiadau yn 2004-05 i un anaf yn 2009-10;
- mae nifer y tanau bwriadol yr ymatebwyd iddynt wedi gostwng 40 y cant ers 2004-05, o 4,712 i 2,832 yn 2009-10.

## Gwaith ieuenctid

48 Mae nifer o raglenni atal tân a diogelwch ar y ffyrdd wedi'u hanelu at blant a phobl ifanc. Ymhlith y rhaglenni na chyfeiriwyd atynt uchod mae Pass Plus Cymru a CSI Cymru, sydd wedi'u hanelu at yrwyr ifanc er mwyn lleihau eu risg o gael eu hanafu mewn damwain traffig ar y ffyrdd. Mae cant chwe deg o yrwyr ifanc wedi cymryd rhan mewn mentrau diogelwch ar y ffyrdd gyrru i gyrraedd, diogelwch beic modur, Pass Plus a CSI Cymru yn ystod 2009-10.

49 Mae 10 o grwpiau Diffoddwyr Tân Ifanc ledled yr ardal.

50 Mae rhaglen addysg ar waith ac mae elfennau ohoni'n cysylltu â chyfnodau allweddol dau, tri a phedwar o'r cwricwlwm cenedlaethol. Ymwelwyd â 260 o ysgolion yn ystod 2009-10. Mae rhaglenni penodol fel Addysg Ymwybyddiaeth Tân i Blant (FACE) a Firesafe wedi'u hanelu at bobl ifanc sy'n dechrau tanau (yn ystod 2009-10 darparwyd 33 o raglenni FACE).

51 Mae saith cwrs i Rieni Ifanc wedi'u cynnal er mwyn codi ymwybyddiaeth o beryglon tân ymhlith pobl ifanc sy'n rhieni.

## Diogelwch ar y Ffyrdd

52 Er bod cyfanswm y tanau yr ymatebwyd iddynt ledled Cymru wedi gostwng 27 y cant ers 2004-05, mae nifer y damweiniau traffig ar y ffyrdd yr ymatebwyd iddynt wedi cynyddu chwech y cant yn ystod yr un cyfnod.

53 Yn 2008 bu 1,190 o farwolaethau a damweiniau difrifol ar ffyrdd Cymru, sy'n ostyngiad o naw y cant ers 2003 (1,302). O ran anafiadau, cafodd 10,354 o bobl eu hanafu ar ffyrdd Cymru yn 2009 o gymharu â 13,687 yn 2004, sy'n ostyngiad o 24 y cant.

54 Nid yw diogelwch ar y ffyrdd ymhlith dyletswyddau statudol yr Awdurdod ond mae'n cydweithio â'r heddlu ac eraill i wella diogelwch ar y ffyrdd drwy grŵp Diogelwch Ffyrdd Cymru. Er hynny mae diogelwch ar y ffyrdd yn un o'r meysydd gwaith allweddol mwyaf ar gyfer 2010-11.

55 Yr Awdurdod yw'r cyntaf yn y DU i lofnodi Siarter Diogelwch ar y Ffyrdd Ewrop[5] ac mae'n gwneud cynnydd da o ran cymryd y pum cam gweithredu canlynol rhwng 2008 a 2011:

- Prynu 84 o beiriannau diogelwch pwrpasol sydd â'r offer achub diweddaraf yn lle'r fflyd bresennol o injans tân – cafodd y rhaglen i gael pympiau achub ymhob gorsaf dân yn lle injans tân rheng flaen ei chwblhau ym mis Rhagfyr 2010.
- Adran ryngweithiol ar ddiogelwch ar y ffyrdd ar y wefan - mae gwelliannau wedi'u gwneud i'r adran ar wefan yr Awdurdod sy'n ymwneud â diogelwch ar y ffyrdd ac mae'n cynnwys amrywiaeth o gyngor a gwybodaeth am fentrau yn ogystal â dolenni i wefannau cysylltiedig. Mae'r wefan yn cael ei datblygu o hyd ac mae cynigion i gynnwys plant a phobl ifanc yn y gwaith hwn fel y gallant ddysgu o'r ymarfer a helpu i lunio gwefan sy'n ddeniadol i grwpiau risg uwch.
- Cynllunio a darparu hyfforddiant gyrru uwch i reolwyr gweithredol presennol a phersonél sydd newydd gymhwyso - datblygwyd rhaglen hyfforddi i feithrin sgiliau gyrru priodol ymhlith gyrwyr gweithredol a gyrwyr nad ydynt ar y rheng flaen. Mae'r rhaglen yn darparu hyfforddiant cychwynnol a hyfforddiant gloywi.
- Cefnogi Cynllun Gyrru Pass Plus Cymru drwy ddarparu staff pwrpasol fel hyfforddwyr i hwyluso un cwrs bob mis ar gyfer hyd at 22 o ymgeiswyr - mae gan yr Awdurdod gynrychiolydd ar Grŵp Llywio Pass Plus Cymru ac mae wedi cynnal dros 60 o gyrsiau gyda'r nod o wella sgiliau gyrwyr sydd newydd gymhwyso yn ystod 2010.
- Cefnogi menter Bikesafe drwy ddarparu ystafelloedd cymunedol ar gyfer sesiynau hyfforddi a hyfforddi dau swyddog yn unol â Safon Aur RoSPA[6] i weithredu fel aseswyr a mentoriaid i yrwyr beiciau modur - cynhaliwyd dros 20 o ddigwyddiadau Bikesafe yn ystod 2010. Cynhaliwyd digwyddiadau Diogelwch ar y Ffyrdd mewn mannau cyfarfod hysbys i yrwyr beiciau modur hefyd, fel Storey Arms a Crossgates, er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i fenter Bikesafe a rhoi cyngor ar ddiogelwch beiciau modur. Mae gan yr Awdurdod wyth o yrwyr beiciau modur sydd wedi cael hyfforddiant Safon Aur RoSPA, ac sy'n gweithredu fel aseswyr a mentoriaid i yrwyr beiciau modur.

56 Mae'r mesurau hyn yn cyfrannu at lwyddiant oherwydd:

- mae nifer y damweiniau traffig ar y ffyrdd yr ymatebwyd iddynt wedi gostwng wyth y cant o 1,371 yn 2004-05 i 1,266 yn 2009-10, sy'n cyferbynnu'n llwyr â'r cynnydd cyfartalog o chwech y cant yn nifer y damweiniau traffig ar y ffyrdd yr ymatebwyd iddynt yng Nghymru;
- mae nifer y marwolaethau a'r damweiniau difrifol ar ffyrdd yn ardal yr Awdurdod wedi gostwng 24 y cant o 550 yn 2003 i 416 yn 2008;
- mae nifer y bobl a anafwyd ar ffyrdd yn ardal yr Awdurdod wedi gostwng 20 y cant o 4,455 yn 2004 i 3,568 yn 2009.

5 The objective of the European Charter is to help reduce road fatalities and has more than 1950 signatories.

6 Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau

# A yw'r Awdurdod yn ymateb yn dda i danau a bygythiadau eraill i ddiogelwch?

57 Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod angen iddo fod yn barod i ymateb i amrywiaeth eang o ddigwyddiadau, o danau a damweiniau traffig ar y ffyrdd i lifogydd, trychinebau naturiol eraill a therfysgaeth. Yn 2009-10 ymatebodd i gyfanswm o 23,180 o alwadau brys gan fynd i tua 15,000 o ddigwyddiadau. Roedd hyn yn cynnwys bron 10,000 o danau a digwyddiadau gwasanaeth arbennig; roedd 52 y cant o'r digwyddiadau hyn yn danau ac roedd y 48 y cant arall yn ddigwyddiadau nad oeddent yn ymwneud â thân, fel damweiniau traffig ar y ffyrdd, llifogydd a galwadau diangen.

58 Er mwyn ymateb i geisiadau am gymorth mae gan yr Awdurdod:

- Tua 1,200 o staff gweithredol a 180 o staff cymorth. Mae cadw staff yn ddiogel yn flaenoriaeth allweddol ac mae'n hollbwysig rhoi hyfforddiant i griwiau gweithredol ar y technegau a'r offer diweddaraf fel y gallant ymateb yn llwyddiannus i amrywiaeth o ddigwyddiadau.
- 57 o orsafoedd tân lle mae'r rhan fwyaf o'r staff yn gweithio a lle cedwir y rhan fwyaf o'r cyfarpar. Lleolir y rhain mewn 'ardaloedd rheoli' daearyddol sy'n cydffinio â'r chwe chyngor sy'n rhan o'r Awdurdod. O blith y rhain:
  - mae gan saith ohonynt griwiau shifft (staff yn yr orsaf 24 awr y dydd);
  - mae gan chwech ohonynt griwiau yn ystod y dydd (staff yn yr orsaf am ran o'r diwrnod a staff wrth gefn ar adegau tawelach);
  - mae gan 44 ohonynt staff wrth gefn (staff sy'n ymateb i ddigwyddiadau yn ôl yr angen ac sydd ond yn yr orsaf am ychydig oriau'r wythnos).
- 72 o injans rheng flaen ac amrywiaeth o gerbydau arbenigol a gaiff eu cynnal a'u cadw (gan gynnwys gwaith ac atgyweiriadau sylweddol) yn ei weithdai ei hun. 16 o gerbydau wrth gefn a ddefnyddir pan fo cerbydau rheng flaen yn cael eu trwsio neu'u cynnal a'u cadw er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau.

59 Mae afon Gwasanaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Tanau yn y Cartref (y Safon) wedi cael ei ddefnyddio ers 2006, i fesur pa mor dda mae'r Awdurdod yn ymateb i danau mewn anheddau. Nod y Safon oedd ymateb i danau mewn 80 y cant o anheddau Cymru o fewn 10 munud (pum munud lle dengys tystiolaeth fod mwy o risg i fywyd), ynghyd â chynnal mwy o weithgarwch ataliol ar gyfer yr 20 y cant o anheddau nad oeddent yn rhan o'r Safon. Yn dilyn adolygiad o'r Safon yn 2010, yn sgîl pryderon ynghylch gwendidau posibl, datblygwyd dogfen arall, sef 'Egwyddorion Arweiniol ar gyfer Ymateb i Danau mewn Anheddau', sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd.

60 Nid oes unrhyw un o'r meysydd allweddol a nodwyd ar gyfer 2010-11 yn ymwneud yn uniongyrchol â'r agwedd hon ar y gwasanaeth ond mae'r ddau amcan gwella canlynol ar gyfer 2011-12 yn briodol i'r Awdurdod gan eu bod yn ymwneud yn uniongyrchol â swyddogaethau statudol allweddol:

- Ymateb Brys: Mae trefniadau effeithiol o ran diogelwch a lles cyflogeion yn ein helpu i ateb yr heriau a wynebir mewn digwyddiadau brys a bydd trefniadau cadarn o ran hyfforddiant ac ymateb yn helpu i gyflawni hyn.
- Cydnerthu Cymunedau: Parhau i ddatblygu ein gallu i ymateb i ddigwyddiadau eithriadol sy'n effeithio ar ein cymunedau a'r Awdurdod drwy weithio gydag asiantaethau partner i ddatblygu ac ymarfer cynlluniau brys.

61 Yn ddiweddar, gyda chymorth Llywodraeth y Cynulliad, prynwyd offer diogelu personol newydd ar gyfer diffoddwyr tân ledled Cymru.

62 Yn ystod 2009-10 cafodd 57 o aelodau personél eu hanafu 'ar ddyletswydd' sy'n lleihad ers y flwyddyn flaenorol pan anafwyd 81. O ganlyniad i'r anafiadau hyn cafodd 446 o ddiwrnodau eu colli (o gymharu â 624 yn 2008-09) gan staff llawn amser. Mae'r rhaglen o archwiliadau Iechyd a Diogelwch mewn gorsafoedd ac adrannau wedi parhau a rhoddwyd argymhellion ar waith, gan gynnwys datblygu cwrs hyfforddiant gloywi ar godi a chario er mwyn sicrhau bod hyfforddwyr sgiliau codi a chario yn gymwys.

63 Yn ystod 2009-10 collwyd rhyw 3,800 o ddiwrnodau/shifftiau o ganlyniad i absenoldeb oherwydd salwch, sydd bron 205 o ddiwrnodau yn llai na'r flwyddyn flaenorol (pump y cant) ac sy'n gyfwerth â thua 6 diwrnod y pen. Staff rheoli sydd â'r gyfradd uchaf o absenoldeb oherwydd salwch gan golli 11 o ddiwrnodau gwaith y pen ar gyfartaledd o gymharu â chwe diwrnod yn achos staff gweithredol a saith diwrnod yn achos staff anweithredol.

64 Fel rhan o PAT, adolygwyd trefniadau'r Awdurdod o ran Iechyd, Diogelwch a Lles a hyfforddi, datblygu ac asesu yn ystod hydref 2009. Daethpwyd i'r casgliad bod trefniadau'r Awdurdod ar gyfer cyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas ag iechyd, diogelwch a lles yn ogystal â hyfforddi, datblygu ac asesu yn cyd-fynd â'r holl ddisgrifyddion 'sefydledig' yn adrannau perthnasol y canllawiau ar sicrwydd gweithredol y gwasanaethau a gyflenwir a chaiff rhagor o ganfyddiadau eu cynnwys yn Atodiad 6.

65 Mae'r Awdurdod wedi ymateb i argymhellion PAT, yn arbennig o ran cofnodion hyfforddi ac yn ddiweddar mae wedi cymryd camau i ddatrys y broblem o gofnodion hyfforddi sydd wedi'u dyblygu drwy symud taenlenni o orsafoedd a chadw cofnodion yn ganolog. Mae'r Awdurdod wrthi'n cynnal adolygiad o'i Broses ar gyfer Adolygu Datblygiad Personol.

66 Mae'n hanfodol bod criwiau tân yn gallu cael cymaint o wybodaeth â phosibl am ddigwyddiad ac i'r perwyl hwn, mae'r Awdurdod wedi gosod systemau cyfrifiadurol soffistigedig yng nghabanau ei holl gerbydau brys rheng flaen. Mae'r systemau data hyn ar gyfer cerbydau yn cynnwys sgriniau cyffwrdd cryf, sy'n galluogi diffoddwyr tân i gael cyfoeth o wybodaeth a allai achub bywydau - gan gynnwys cynlluniau adeiladau a risg, manylebau dylunio llawer o geir, mapiau ffyrdd a'r priodoleddau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â sylweddau cemegol - yn syth o gaban y cerbyd tân. Mae gan bob caban ei argraffydd cyfrifiadurol ei hun hefyd fel y gall criwiau tân wneud copi caled o'r wybodaeth ar y ffordd i ddigwyddiad neu yn ystod digwyddiad.

67 Canolfan Earlswood yw prif leoliad hyfforddi’r Awdurdod. Mae’r safle yn cynnig y cyfle i gynnal hyfforddiant ‘ymddygiad tân’ drwy ailgreu sefyllfaoedd tân realistig ynghyd ag ymarferion sefyllfaoedd mwy heriol. Mae gan y safle hefyd ardal ar gyfer hyfforddiant ym maes damweiniau traffig ar y ffyrdd a thair ystafell ddysgu. Y safle hefyd, yw cartref y cyfleuster hyfforddi, Gwasanaethau Chwilio ac Achub Trefol (USAR) Cymru. Yn Ionawr 2011, bydd rhaglen hyfforddi cydweithrediadol yn cael ei gyflwyno ledled Cymru.

68 Caiff staff eu hyfforddi hefyd i ymateb i ddigwyddiadau cenedlaethol yn ogystal â rhai lleol. Yn dilyn yr ymosodiadau terfysgol ar 11 Medi 2001 yn Unol Daleithiau America, rhoddodd Llywodraeth y DU raglen ar waith i sicrhau bod Gwasanaeth Tân ac Achub y DU yn gallu delio â digwyddiadau o'r maint hwnnw pe byddent yn digwydd yma. Mae rhaglen 'New Dimension' (ND) wedi gwella'r gallu i ymateb i ddigwyddiadau aflonyddol mawr, gan gynnwys terfysgaeth, drwy ddarparu cerbydau ac offer arbenigol ledled Cymru (gan gynnwys Pympiau Cyfaint Uchel, Unedau Ymateb i Ddigwyddiadau ac Offer dadheintio). Mae'r cerbydau a'r offer yng Nghanolbarth Cymru yn werth rhyw £2 filiwn.

69 Mae rhaglen ND yn darparu adnoddau arbenigol hefyd, er enghraifft, USAR. Mae timau USAR yn gallu cynnal gweithrediadau arbenigol i achub pobl o ddigwyddiadau lle mae adeiladau wedi dymchwel, digwyddiadau mewn ardaloedd cyfyng a digwyddiadau trafnidiaeth mawr. Ceir 20 o dimau USAR ledled y DU ac mae un ohonynt yng Nghymru. Mae tîm USAR Cymru yn cynnwys aelodau o Awdurdodau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a De Cymru. Mae'r tîm bob amser ar gael i ymateb ac mae'r aelodau'n hyfforddi gyda'i gilydd ddwywaith y mis. Cynhaliodd y Tîm Sicrhau Cydnerthedd Cenedlaethol broses sicrwydd mewn perthynas â thîm USAR Cymru yn ystod mis Hydref 2010 ac o blith y 45 o feysydd cwestiwn allweddol a adolygwyd, canfuwyd mai dim ond un maes datblygu y nodwyd bod angen cynnal hyfforddiant ymwybyddiaeth ar ei gyfer a'i gynnwys yng nghynllun hyfforddi'r tîm.

70 Er mwyn gallu ymateb i alwadau lleol a chenedlaethol mae'r Awdurdod wedi datblygu cyfres o gynlluniau wrth gefn sy'n ei helpu i ymdopi pan fo galw uchel am ei wasanaethau. Mae'n rhannu'r cynlluniau hyn â phartneriaid, fel yr heddlu, ambiwlansys a gwylwyr y glannau, ac mae wedi dechrau cyfres o brofion amlasiantaeth mewn perthynas â'r cynlluniau hyn i sicrhau eu bod yn gadarn ac wedi cynnal ymarferion hyfforddi ar y cyd.

71 Yn ystod 2009-10 derbyniodd yr Uned Rheoli Tân 34,110 o alwadau. Er mwyn atgyfnerthu trefniadau ar gyfer ymdrin â galwadau, mae'r Uned Rheoli Tân wedi'i lleoli yn yr un man â Heddlu Dyfed-Powys a chafodd ei huwchraddio'n ddiweddar. Bydd prosiect cydnerthu unedau rheoli tân newydd ar gyfer Cymru gyfan yn dod i rym yn ystod 2011-12. Bydd hyn yn sicrhau mwy o adnoddau wrth gefn a chydnerthedd rhwng y tair Uned Rheoli Tân yng Nghymru. Mae cydnerthedd yr Awdurdod wedi gwella hefyd drwy ddefnyddio'r system radio Airwave fel y gellir cysylltu'n well â gwasanaethau brys eraill.

72 Mae nifer y galwadau maleisus y mae'r Awdurdod yn eu derbyn wedi lleihau ers 2004-05 pan dderbyniodd 1,197 galwad o gymharu â 701 yn 2009-10. Yn ogystal â lleihad yn nifer y galwadau maleisus y mae'n eu derbyn, mae canran y galwadau maleisus yr ymatebir iddynt wedi gostwng dros yr un cyfnod hefyd (47 y cant o gymharu â 33 y cant). Mae hyn yn bennaf gan fod galwadau y tybir eu bod yn faleisus yn cael eu herio gan yr atebwyr ffôn, ac mae achos yn cael ei gymryd yn erbyn y bobl sydd yn gwneud galwadau o'r fath.

73 Mae gan yr Awdurdod broses gynhwysfawr ar gyfer dysgu gweithredol gan gynnwys anfon swyddogion annibynnol i ddigwyddiadau penodol i'w harsylwi a rhoi cyngor i'r swyddogion cyfrifol pe bai angen. Defnyddir gwybodaeth a gesglir i lywio hyfforddiant a gwella iechyd a diogelwch.

# Beth y dylai'r Awdurdod ei wneud?

74 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Awdurdod, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth y Cynulliad ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Awdurdod ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod;
- gwneud cynigion ar gyfer gwella - os byddwn yn gwneud argymhellion i'r Awdurdod, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

75 Rydym o'r farn bod angen i'r Awdurdod ystyried ein cynigion i'w helpu i wella:

**Cynigion a wnaed yn ein gwaith cynharach**

- llunio cynllun rheoli asedau a threfniadau rheoli perfformiad mewn perthynas â rheoli adeiladau;
- llunio dadansoddiad manwl o anghenion hyfforddi i ategu ei weithgareddau hyfforddi a datblygu.

**Cynigion newydd**

Dylai'r Awdurdod wneud y canlynol:

- adolygu'r ystod o systemau data a gwybodaeth am y rhesymau canlynol:
  - fel bod gwell gwybodaeth ar gael i helpu i ddarparu gwasanaethau gweithredol a gwneud penderfyniadau e.e. proffiliau cymunedol;
  - fel ei bod yn haws rhannu gwybodaeth â phartneriaid e.e. o ran cronfeydd data o eiddo annomestig ac Archwiliadau Diogelwch Tân mewn Cartrefi;
  - gwella gwaith monitro perfformiad fel bod yr Awdurdod yn gwybod sut mae'n perfformio yn erbyn ei amcanion gwella a sut mae'n cymharu ag awdurdodau tân ac achub eraill.
- datblygu'r amcanion gwella a'r mesurau perfformiad a chanlyniadau cysylltiedig sy'n ei alluogi i nodi effaith ei weithgarwch ar ei gymuned;
- adolygu'r modd y mae'n ymgynghori ac yn ymgysylltu fel bod rhanddeiliaid a dinasyddion yn cael cyfleoedd priodol i ddylanwadu ar flaenoriaethau ar gyfer gwella a'u llywio yn y dyfodol.

# Atodiad 1

## Gwybodaeth am Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn

**Yr Archwilydd Cyffredinol**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac mae'n cael ei benodi gan Ei Mawrhydi Y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn helpu'r Archwilydd Cyffredinol drwy archwilio amryw o agweddau ar sut mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gweithio. Crëwyd Swyddfa Archwilio Cymru yn 2005 drwy uno'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yng Nghymru a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth y Cynulliad a'i chyrff cyhoeddus noddedig a chysylltiedig; Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned.

Yn ogystal ag ymgymryd ag archwilio ariannol, rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw edrych ar sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian y cyhoedd, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r ddeddf a greodd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd wedi ymestyn pwerau'r Archwilydd Cyffredinol i ddilyn y 'bunt gyhoeddus' ble bynnag mae'n mynd.

**Yr adroddiad hwn**

Cyflwynodd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) gyfrifoldebau newydd i'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys cyfrifoldeb i gyhoeddi ei asesiad o drefniadau pob cyngor/awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni dyletswyddau o dan adran 19, sef; cyhoeddi adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal archwiliad o dan adran 17 ac asesiad gwella o dan adran 18.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer [eu] swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr Asesiad Gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau.[7]

7 Cynhelir yr asesiad hwn ar gyfer pob awdurdod gwella, o dan adran 18 o'r Mesur. Bydd yn penderfynu a yw pob awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion Rhan 1 o'r Mesur. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cynnal archwiliad o wybodaeth am welliannau a chynllunio ar gyfer gwella, fel sy'n ofynnol o dan adran 17 o'r Mesur, er mwyn penderfynu a yw'r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(1) i (7).

Bydd hyn yn cael ei lywio gan:

- Asesiad Corfforaethol – asesiad sy’n edrych i’r dyfodol i weld pa mor debygol yw awdurdod o gydymffurfio â’i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus; ac
- Asesiad o Berfformiad – asesiad ôl-weithredol i weld a yw awdurdod wedi cyflawni’r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llywio barn ar sut y llwyddodd yr awdurdod i wella.

Cyhoeddir canlyniad(au) yr asesiadau hyn gan yr Archwilydd Cyffredinol fel Adroddiad(au) Archwilio ac Asesu, o dan adran 19 o’r Mesur. Wrth gyhoeddi’r adroddiad hwn o dan adran 19, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ardystio ein bod wedi cynnal archwiliad adran 17 ac asesiad gwella adran 18.

Dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal Arolygiadau Arbennig (o dan adran 21), a bydd yn cyflwyno adroddiad i’r awdurdodau a’r Gweinidogion perthnasol, gan ei gyhoeddi o bosibl (o dan adran 22).

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi Adroddiadau Archwilio ac Asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn a gyhoeddir (o dan adran 24). Bydd hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau o Arolygiadau Arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23) sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau a bydd yr adroddiad hwn yn crynhoi unrhyw waith a wnaed ganddynt.

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi'r ffi ar gyfer gwaith archwilio perfformiad a wnaed ganddo i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur ym mhob awdurdod lleol mewn Rhaglen Reoleiddio y cytunir arni bob blwyddyn â'r awdurdod. Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi ar gyfer mis Tachwedd 2009 hyd at fis Mawrth 2011 fod yn unol â'r swm a nodir yn y Rhaglen Reoleiddio.

# Atodiad 2

## Gwybodaeth ddefnyddiol am Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Rhaid i'r Awdurdod gyflawni'r holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a rheoliadau priodol. Ceir dwy gyfraith bwysig yn ymwneud ag Awdurdodau Tân:

**Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004**

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod tân ddarparu gwasanaeth diffodd tân, sydd hefyd yn golygu amddiffyn bywyd ac eiddo os oes tân yn digwydd. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth o ran ymateb i ddamweiniau traffig ar y ffyrdd ac argyfyngau eraill yn ogystal â gweithgareddau diogelwch cymunedol.

**Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 (y Gorchymyn)**

Daeth y Gorchymyn i rym ar 1 Hydref 2006, gan ddisodli dros 70 o ddarnau unigol o ddeddfwriaeth diogelwch tân. Diddymwyd y gofyniad i fusnesau gael tystysgrifau tân. Mae'r Gorchymyn yn berthnasol i bob eiddo annomestig yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys y rhannau cyffredin mewn blociau o fflatiau a chartrefi amlddeiliadaeth. Mae'n rhoi cyfrifoldeb i'r rhai sydd yn y sefyllfa orau i fynd i'r afael â diogelwch tân a sicrhau y caiff risgiau eu hadolygu'n barhaus. O dan y Gorchymyn mae'n ofynnol i'r Unigolyn Cyfrifol[8] gynnal asesiad o'r risg o dân a rhoi mesurau diogelwch tân priodol ar waith i leihau'r risgiau a berir gan dân i fywyd i'r eithaf; a diweddaru'r asesiad yn barhaus. Caiff y Gorchymyn ei orfodi gan Awdurdodau Tân ac Achub y disgwylir iddynt ddatblygu cyfundrefnau arolygu priodol yn seiliedig ar risg.

**Deddf Argyfyngau Sifil 2004**
Mae'r Ddeddf yn darparu un fframwaith ar gyfer mesurau amddiffyn sifil yn y Deyrnas Unedig a all gyflawni heriau'r unfed ganrif ar hugain. Mae'r Ddeddf wedi'i rhannu'n ddwy; Rhan 1 sy'n diffinio rhwymedigaethau sefydliadau penodol i baratoi ar gyfer mathau amrywiol o argyfyngau a Rhan 2 sy'n darparu pwerau ychwanegol i'w defnyddio gan y llywodraeth os bydd argyfwng difrifol.

O dan y Ddeddf caiff Gwasanaethau Tân ac Achub eu diffinio fel Ymatebwyr Categori 1 ac felly mae ganddynt chwe dyletswydd benodol i'w cyflawni:

- asesu'r risg o argyfyngau a defnyddio'r wybodaeth hon i lywio gwaith cynllunio wrth gefn;
- rhoi cynlluniau argyfwng ar waith;
- rhoi trefniadau Rheoli Parhad Busnes ar waith;
- rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod gwybodaeth am faterion amddiffyn sifil ar gael i'r cyhoedd a chynnal trefniadau i rybuddio, hysbysu a chynghori'r cyhoedd mewn achos o argyfwng;

8 Mae dogfennau Cyfraith a Chanllawiau Diogelwch Tân yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol i fusnesau yn datgan bod y gyfraith yn gymwys os ydych: yn gyfrifol am safle busnes, yn gyflogwyr neu'n weithiwr hunangyflogedig â safle busnes, yn gyfrifol am ran o annedd a gaiff ei defnyddio at ddibenion busnes yn unig, yn elusen neu'n sefydliad gwirfoddol, yn gontractiwr sy'n gyfrifol mewn rhyw ffordd am unrhyw safle, yn darparu llety i bobl sy'n talu.

- rhannu gwybodaeth ag ymatebwyr lleol eraill er mwyn gwella'r broses gydgysylltu;
- cydweithio ag ymatebwyr lleol eraill er mwyn gwella prosesau cydgysylltu ac effeithlonrwydd.

Gosodir dyletswydd ychwanegol ar awdurdodau lleol sef:

- Rhoi cyngor a chymorth i fusnesau a sefydliadau gwirfoddol mewn perthynas â rheoli parhad busnes. Gellir galw ar wasanaethau tân ac achub lleol i gynorthwyo â'r rôl hon.

Mae sefydliadau Categori 2 yn cynnwys sefydliadau megis yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, cwmnïau trafnidiaeth a chwmnïau cyfleustodau. Bydd sefydliadau Categori 1 a 2 yn sefydlu Fforymau Cydnerthu Lleol (yn seiliedig ar ardaloedd yr heddlu) a fydd yn helpu ymatebwyr i gydgysylltu a chydweithio ar lefel leol.

Ariennir yr Awdurdod yn uniongyrchol gan yr awdurdodau lleol sy'n rhan ohono, ar sail yr etholfraint gofrestredig ymhob ardal. Mae'n cynnwys 25 o gynghorwyr o'r chwe awdurdod sy'n rhan ohono:

- Cyngor Sir Ceredigion (dau aelod)
- Cyngor Sirol Caerfyrddin (pump aelod)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (pedwar aelod)
- Cyngor Dinas Abertawe (saith aelod)
- Cyngor Sir Powys (pedwar aelod)
- Chyngor Sirol Penfro (tri aelod)

Caiff nifer y cynrychiolwyr o bob awdurdod ei bennu yn ôl nifer yr etholwyr llywodraeth leol sydd wedi eu cofrestru ym mhob ardal.

Y Cynghorydd Eurfyl Evans yw Cadeirydd presennol yr Awdurdod Tân.

Yr Awdurdod yw'r prif gorff ar gyfer llunio polisïau ac mae'n llywodraethu'r broses o fabwysiadu arferion gwaith amrywiol yn unol â chanllawiau statudol a gyflwynir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n cyfarfod bob chwarter a chaiff ei gefnogi gan dri phrif bwyllgor, sef y Pwyllgor Adnoddau, y Pwyllgor Personél a'r Pwyllgor Adolygu ac Archwilio Perfformiad. Mae'r grwpiau hyn i gyd yn cwrdd yn rheolaidd i ystyried materion o fewn eu meysydd cyfrifoldeb. Mae'r cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd, ac mae cofnodion o drafodion yr Awdurdod ar gael ar ei wefan.

Arweinir a rheolir y Gwasanaeth gan R Smith, y Prif Swyddog Tân, gyda chymorth y Bwrdd Gweithredol sy'n cynnwys y Prif Swyddog Tân a'r Prif Swyddogion sy'n arwain cyfarwyddiaethau gweithredol.

Am ragor o wybodaeth ewch i wefan yr Awdurdod yn www.mawwfire.gov.uk neu cysylltwch ag Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Pencadlys Gwasanaeth, Heol Llwyn Pisgwydd, Caerfyrddin, SA31 1SP.

# Atodiad 3

## Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol

Nodir isod brif gasgliadau Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol, a gyflwynwyd i'r Awdurdod ym mis Gorffennaf 2010:

Mae arweinyddiaeth gref a threfniadau corfforaethol da ar waith, sy'n debygol o fod yn sail gadarn i wella perfformiad.

**Sut mae'r Awdurdod wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser**

Mae arweinyddiaeth gref a natur arloesol yr Awdurdod yn golygu ei fod mewn sefyllfa dda i ymateb i'r heriau y mae'n gwybod amdanynt:

- mae gan yr Awdurdod hanes o arweinyddiaeth a sefydlogrwydd corfforaethol cadarn sydd wedi arwain at newidiadau a gwelliannau parhaus hyd yma;
- mae gan yr Awdurdod ddull cadarn o gynllunio ei weithgareddau gwella sy'n seiliedig ar flaenoriaethau clir;
- mae trefniadau'r Awdurdod yn golygu ei fod mewn sefyllfa dda i ymateb i'r heriau y mae'n gwybod amdanynt mewn ffordd gadarnhaol, rhagweithiol ac arloesol.

**Dadansoddiad o drefniadau'r Awdurdod i'w helpu i wella**

Mae'r Awdurdod yn dangos cryfderau penodol mewn perthynas ag arwain a llywodraethu cadarn, ond ceir rhai agweddau ar reoli pobl nad ydynt yn hyrwyddo gwelliant yn llawn hyd yma:

- caiff yr Awdurdod ei arwain mewn ffordd gadarn a chreadigol;
- mae proses yr Awdurdod o lunio strategaethau a pholisïau yn gydlynol ac mae'n parhau i atgyfnerthu ei ddull o weithio mewn partneriaeth;
- caiff prosesau busnes effeithiol yr Awdurdod a'i broses o reoli adnoddau o ddydd i ddydd eu hatgyfnerthu ymhellach pan gaiff y cynllun ariannol tymor canolig ei lunio;
- mae'r Awdurdod wedi gwella ei brosesau rheoli pobl ond ceir heriau o hyd, yn arbennig o ran hyfforddi a datblygu.

I weld yr adroddiad llawn ewch i'n gwefan yn www.wao.gov.uk neu cysylltwch â ni yn y cyfeiriad ar y clawr mewnol.

# Atodiad 4

## Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig at Aelodau Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru

**Cydymffurfiodd Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru â'r gofynion adrodd sy'n gysylltiedig â threfniadau ariannol a gwella perfformiad ond mae'n wynebu pwysau ariannol sylweddol yn y dyfodol agos.**

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- cyhoeddi ei Gynllun Gwella erbyn 31 Hydref.

Mae'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol (y Cod) yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau;
- ystyried a yw'r Cynllun Gwella wedi'i baratoi a'i gyhoeddi yn unol â gofynion statudol;
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Ar 29 Medi 2010 rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol yr Awdurdod a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon.

Nodwyd y materion canlynol wrth archwilio'r cyfrifon:

- Mae'r prosesau ar gyfer paratoi datganiadau cyfrifyddu wedi parhau i wella gan arwain at ddatganiadau drafft o ansawdd uchel a ategir gan bapurau gwaith cynhwysfawr;
- mae angen gwneud mwy o waith i baratoi i roi IFRS ar waith yn 2010-11. Dylai'r Awdurdod geisio llunio mantolen agoriadol a chyfres ddrafft o gyfrifon IFRS, gan gynnwys cymariaethau, cyn gynted â phosibl;
- Paratowyd ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan yn effeithiol ac yn unol ag amserlen y Cynulliad.

Mae fy adolygiad o drefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac yn dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Mesur Llywodraeth Leol. Caiff prif ganfyddiadau'r gwaith olaf hwn eu nodi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol. Yn ogystal, tynnaf eich sylw at y materion canlynol:

- Mae trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli'r gyllideb ac mae prosesau cynllunio ariannol tymor canolig yn cael eu datblygu, ond mae'r Cyngor yn wynebu pwysau ariannol sylweddol yn y dyfodol. Cyfeirir at hyn ymhellach yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

Mae Cynllun Gwella'r Awdurdod ar gyfer 2010-2011 yn bodloni gofynion statudol ac yn rhoi darlun cytbwys o'i berfformiad yn 2009-2010.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 29 Medi 2010.

Roedd y ffi archwilio ariannol ar gyfer 2009-2010 yn unol â'r ffi a nodwyd yn y Strategaeth Archwilio Ariannol.

Virginia Stevens
KPMG LLP

# Atodiad 5

## Amcanion Gwella Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cyhoeddodd yr Awdurdod ei amcanion gwella yn ei Gynllun Gwella sydd ar gael ar wefan yr Awdurdod yn www.mawwfire.gov.uk. Mae'r amcanion yn cael eu disgrifio yn fanwl, o fewn y themâu fel a ganlyn:

**Rheoli Risg**

Rheolir risg mewn amrywiaeth o feysydd fel y nodir yn y Cynllun Strategol, ac mae'r Awdurdod yn parhau i roi blaenoriaeth i gadw cymunedau'n ddiogel. Roedd Cynllun Gweithredu Blynyddol 2010-11 yn canolbwyntio ar ddiogelwch cymunedol; mae'r amcanion hyn yn rhai hirdymor a chânt eu cyflawni eleni ac yn y dyfodol.

Mae'r Awdurdod wedi nodi bod cydnerthedd yn flaenoriaeth ar gyfer gwasanaethau eraill yn y sector cyhoeddus, y sector gwirfoddol a'r sector preifat ac maent eisoes yn cydweithio i sicrhau eu bod yn gweithio'n agos â'i gilydd, gan ddarparu gwasanaeth cadarn ar y cyd i'r bobl sydd ei angen. Nodir y bydd pwyslais yn cael ei roi ar Gydnerthedd mewn Cymunedau yn 2011-12 fel y gall yr Awdurdod barhau i ddatblygu ei allu i ymateb i ddigwyddiadau eithriadol sy'n effeithio ar gymunedau a'r Gwasanaeth drwy weithio gydag asiantaethau partner i ddatblygu ac ymarfer cynlluniau brys. Er mwyn gwneud hyn, mae'r Awdurdod yn bwriadu:

- parhau i weithio o fewn y Fforymau Cydnerthu Lleol i ddatblygu ein cyd-gynlluniau ymhellach;
- cynnal nifer o ymarferion i brofi ein cynlluniau er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio;
- rhannu ein cyfleusterau a'n hadnoddau i ddiwallu anghenion cymunedol pe bai digwyddiadau mawr yn codi;
- adolygu a phrofi cynlluniau parhad busnes adrannol er mwyn sicrhau y gellir parhau i ddarparu gwasanaethau craidd bob amser.

Cyhoeddodd yr Awdurdod ei Strategaeth ar Gynaliadwyedd a'r Amgylchedd ym mis Mehefin 2009 i amlinellu ei weledigaeth ar gyfer sut y bydd yn cyfrannu at yr agenda hon. Mae wedi dewis Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd fel maes i ganolbwyntio arno yn 2011-12 ac mae'n bwriadu:

- parhau i weithio i gyflawni'r amcanion yn Strategaeth Llywodraeth y Cynulliad - Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned (www.cymru.gov.uk);
- cyflawni ail flwyddyn ein cynllun i ennill Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd;
- llunio Cynllun Trafnidiaeth Gwyrdd ar gyfer y Gwasanaeth;
- adolygu effaith y ffordd rydym yn ymdrin â phob math o dân ar yr amgylchedd;
- parhau i chwarae ein rhan i ddatblygu cymunedau mwy diogel, a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy raglenni atal tanau bwriadol a gweithgareddau ymgysylltu â phobl ifanc

**Rheoli Pobl ac Ymateb Brys**

Mae trefniadau effeithiol o ran diogelwch a lles cyflogeion yn helpu'r Awdurdod i ateb yr heriau a wynebir mewn digwyddiadau brys drwy sicrhau bod cyflogeion yn cael yr hyfforddiant, yr arweiniad a'r offer angenrheidiol. Datblygwyd proses i asesu anghenion o ran hyfforddi er mwyn nodi a rheoli hyfforddiant risg critigol. Hyrwyddir ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth drwy hyfforddiant a chaiff effaith polisïau a phrosesau ar gydraddoldeb ei hasesu. Mae diogelwch cyflogeion yn faes i ganolbwyntio arno yn 2011-12 a'r flwyddyn nesaf mae'r Awdurdod yn bwriadu:

- parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant sgiliau craidd ar gyfer ein cyflogeion, yn seiliedig ar y risgiau y maent yn eu hwynebu mewn argyfyngau;
- parhau i gefnogi hyfforddiant parhad ar gyfer diffoddwyr tân rheng flaen;
- parhau i ddatblygu'r fframwaith dadansoddi anghenion hyfforddi;
- gweithio gyda gwasanaethau brys eraill i sicrhau bod ein gweithdrefnau brys yn gweddu i'w gilydd;
- gwella ein hyfforddiant a'n cymorth i gyflogeion mewn perthynas ag achosion o gam-drin geiriol neu gorfforol;
- cynyddu nifer y dyfeisiau teledu cylch cyfyng sydd wedi'u gosod ar ein hoffer;
- manteisio i'r eithaf ar dechnoleg i wella'r offer y mae criwiau'n eu defnyddio i fynd i'r afael ag argyfyngau yn ddiogel ac yn effeithlon;
- parhau i ddefnyddio gwybodaeth am risg a gesglir yn sgîl gweithgarwch gweithredol, yn lleol ac yn genedlaethol, i ddylanwadu ar ein strategaethau a'n polisïau ar gyfer lleihau damweiniau a salwch ymhlith ein cyflogeion.

**Cydweithio**

Mae'r Awdurdod wedi gweithio'n galed dros y blynyddoedd i ddatblygu cydberthnasau â gwasanaethau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau posibl a chyrraedd mwy o'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ei gymuned. Mae eisoes yn gweithio gyda phartneriaid ar nifer o fentrau ac mae Gwaith Partneriaeth yn faes y bydd yn canolbwyntio arno yn 2011-12 i ddatblygu gwaith partneriaeth strategol er mwyn sicrhau y cyflanwir nodau o ran diogelwch cymunedol. Mae'r Awdurdod yn bwriadu:

- cynyddu ein gwaith partneriaeth o ran diogelwch tân yn y cartref gyda sefydliadau sydd â chysylltiad uniongyrchol â'r bobl sydd fwyaf agored i niwed;
- defnyddio ein Cydgysylltydd Sector Gwirfoddol, a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, i wella ein trefniadau partneriaeth;
- gwella ein gwaith ymgysylltu â phartneriaid gan ein galluogi i wneud cyfraniad mwy effeithiol at ddiogelwch ar y ffyrdd;

- gwella'r ffordd y mae ein cyflogeion yn rhyngweithio â llawer o'n dinasyddion sy'n agored i niwed;
- bod yn rym ysgogol i sefydlu dull o gaffael, cyfnewid gwybodaeth a hyfforddi ar gyfer Cymru gyfan er mwyn sicrhau gwerth am arian;
- chwilio am ffyrdd o ymestyn ein rôl gymunedol drwy feithrin cysylltiadau â phartneriaid newydd;
- gwerthuso ein trefniadau partneriaeth i sicrhau eu bod yn cyflwyno buddiannau cymunedol gwirioneddol;
- parhau i ymestyn ein gwaith allgymorth i atal tanau bwriadol ac ymgysylltu'n fwy â phlant a phobl ifanc;
- datblygu ein gwaith â phartneriaid Argyfyngau Sifil Posibl.

**Rheoli Adnoddau**

Er mwyn adlewyrchu'r pwys y mae'r Awdurdod yn ei roi ar sicrhau bod ei arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf costeffeithiol ac effeithlon, yn ystod 2010-11 bydd yr Awdurdod yn canolbwyntio ar Werth am Arian drwy roi canlyniadau allweddol Rhaglen Adolygu Gwasanaethau 2010-11 ar waith i leihau costau a darparu gwasanaethau'n fwy effeithlon. Bydd yn canolbwyntio ar sicrhau bod adnoddau'n diwallu anghenion cymunedau nawr ac yn y dyfodol drwy:

- flaenoriaethu ein gweithgareddau ar sail y risgiau a wynebwn;
- cydbwyso galwadau er mwyn sicrhau ein bod yn darparu gwerth am arian;
- gwella ein ffyrdd o weithio fel ein bod yn parhau i fod yn hyblyg ac yn ddiogel ac yn gallu addasu o hyd i ateb heriau yn y dyfodol;
- gweithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol eraill i sicrhau canlyniadau cymunedol.

**Rheoli Perfformiad**

Fel rhan o'n hymgais i weithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau lleol, rydym yn paratoi ein system rheoli perfformiad i'w throsi i system rheoli perfformiad Cymru gyfan, sef 'Ffynnon'. Bydd hyn yn ein galluogi i gofnodi a monitro ein data ein hunain yn well yn ogystal â rhannu a chymharu perfformiad â gwasanaethau cyhoeddus eraill yng Nghymru.

# Atodiad 6

## Crynodeb o ganfyddiadau Tîm yr Asesiad Cymheiriaid Adolygiad o Iechyd, Diogelwch a Lles (hydref 2009)

**Trefniadau Iechyd, Diogelwch a Lles (IDLI)**

- Adlewyrchir ymrwymiad uchel yr Awdurdod i IDLI yn ei bolisi IDLI cynhwysfawr, sydd wedi'i drosglwyddo'n dda i staff, yn ogystal â'i drefniadau effeithiol o ran lles. Mae wedi sefydlu system i adolygu polisïau'n amserol, ac mae wedi adolygu ei weithdrefnau gweithredu safonol yn ddiweddar i'w cysylltu ag asesiadau risg cyffredinol.
- Er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod yn symud i'r categori 'Uwch', mae angen mwy o fanylion ynghylch sut y caiff y polisi IDLI ei ymgorffori ar draws y sefydliad a'i integreiddio â rhai polisïau/strategaethau eraill, e.e. darparu hyfforddiant, sgiliau craidd a chymhwysedd rheoli digwyddiadau.

**Strwythurau a Threfniadau Rheoli i Gefnogi IDLI**

- Mae'r Awdurdod yn datblygu ac yn cynnal ei weithgareddau IDLI drwy ei strwythurau a'i drefniadau rheoli. Mae'r Awdurdod wedi enwebu aelod etholedig yn Hyrwyddwyr Iechyd a Diogelwch; mae Tîm Risgiau Corfforaethol uchel ei barch ar gael; ac mae sianelau cyfathrebu clir yn bodoli i atgyfnerthu'r ymdeimlad o gyfrifoldeb dros IDLI ymhob haen reoli.
- Bydd integreiddio, cefnogi a rheoli gweithgarwch risg-critigol ymhellach yn lleihau'r risgiau sy'n wynebu'r Awdurdod. Roedd PAT yn awyddus i annog y Gwasanaeth i ddod o hyd i ffyrdd cadarnach o reoli'r broses o ailasesu sgiliau diffoddwyr tân mewn amrywiaeth o feysydd.

**Cynlluniau, Targedau, Gweithdrefnau ac Arferion IDLI**

- Mae'r Awdurdod wedi sefydlu gweithdrefnau ac arferion i sicrhau y caiff gwybodaeth hanfodol o ran diogelwch ei chasglu a'i rhannu â staff. Mae llinell gymorth gyfrinachol ar gael i staff, ond nid oedd pob un ohonynt yn ymwybodol ohoni.
- Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod bod y cyfleusterau lles yng Nghanolfan Hyfforddi Earlswood yn ddiffygiol a bod angen mynd i'r afael â hwy ar fyrder. Hefyd, mae ansicrwydd ynghylch faint o fanylion y mae angen eu rhoi wrth gwblhau adroddiad Ymchwiliad i Ddigwyddiad ac wrth gofnodi digwyddiadau a osgowyd o drwch blewyn.

**Mesur a Gwerthuso Gweithgareddau IDLI**

- Mae gan yr Awdurdod brosesau ar waith i fesur, gwerthuso a rhannu ystod o wybodaeth sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch, ac mae gan Aelodau lefel uchel o ymwybyddiaeth o berfformiad ym maes IDLI drwy'r Pwyllgor Adolygu ac Archwilio Perfformiad (PRAC).
- Byddai adolygu'r prosesau hyn i sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn ymwneud ag iechyd a diogelwch, o bob ffynhonnell berthnasol, yn cael ei hystyried ar lefelau priodol yn y sefydliad, yn helpu'r Awdurdod i symud i'r categori 'Uwch'.

## Adolygiad o Iechyd, Diogelwch a Lles (hydref 2009)

**Polisïau Hyfforddi, Datblygu ac Asesu (HDA)**

- Cefnogir gwaith hyfforddi a datblygu gan amrywiaeth o bolisïau. Gall staff cymorth yn ogystal â staff gweithredol gael ADCau bellach, a chaiff PPDRau eu prif ffrydio drwy'r Gwasanaeth i helpu unigolion i ddatblygu.
- Byddai'r Gwasanaeth yn cael budd o strategaeth hyfforddi bwrpasol, clir a chyfredol sy'n gysylltiedig â pholisi er mwyn cyflawni amcanion y sefydliad, oherwydd gallai diffyg eglurder wrth wahaniaethu rhwng polisi hyfforddi a strategaeth hyfforddi lesteirio'r broses o'u rhoi ar waith yn llwyddiannus.

**Strwythurau a Threfniadau Rheoli i Gefnogi HDA**

- Yn ddiweddar, cyflwynodd y Gwasanaeth strwythur newydd (POD) ar gyfer rheoli ei weithgareddau HDA, sydd â photensial gwirioneddol i ddarparu/helpu i wella HDA. Ymhellach, mae'r ffaith y dyrannwyd arian i HDA yn ddiweddar yn dangos ymrwymiad yr Awdurdod i wella'r maes.
- Fodd bynnag, ni wireddwyd buddiannau arfaethedig y strwythur newydd hyd yma, ac oni eir i'r afael â chyfyngiadau o ran capasiti, mae perygl na fydd yr Awdurdod byth yn cydymffurfio'n llawn â hyfforddiant risg critigol.

**Cynlluniau, Targedau, Gweithdrefnau ac Arferion HDA**

- Mae nifer o ddatblygiadau cadarnhaol wedi digwydd ym maes HDA yn y Gwasanaeth, a datblygwyd rhaglen asesu a hyfforddiant risg critigol ar gyfer y gwasanaeth cyfan.
- Fodd bynnag, roedd yn aneglur p'un a ellid darparu'r rhaglen hyfforddiant ar gyfer y Gwasanaeth cyfan gan ddefnyddio'r capasiti hyfforddi presennol, a byddai'r Gwasanaeth yn cael budd o gynnal dadansoddiad manwl o anghenion hyfforddi er mwyn mesur maint unrhyw ôl-groniadau o ran hyfforddiant risg critigol.

**Mesur a Gwerthuso Gweithgareddau HDA**

- Mae'r Gwasanaeth wedi cyflwyno nifer o ddatblygiadau cadarnhaol i helpu i fesur a gwerthuso gweithgareddau HDA. Mae tystiolaeth i ddangos bod staff mewn gorsafoedd tân bellach yn defnyddio'r system electronig newydd (PDR Pro) i gofnodi gweithgareddau hyfforddi a datblygu a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â digwyddiadau.
- Mae'r Gwasanaeth yn defnyddio tair system gofnodi electronig i storio gwybodaeth am hyfforddiant, datblygiad a gweithgareddau gweithredol ei staff, ond ymddengys bod y wybodaeth a gofnodir ar y systemau hyn yn anghyson ac yn anghyflawn ac mae'n anodd ei dilysu. Felly byddai'r Gwasanaeth yn cael budd o gynnal adolygiad o'r systemau amrywiol. Byddai gwella'r seilwaith TG presennol a'r cyfleusterau mewn gorsafoedd o gymorth mawr i'r broses o gasglu data, yn enwedig mewn gorsafoedd lle darperir gwasanaeth wrth gefn.

Hefyd, byddai'r Gwasanaeth yn cael budd o roi proses ar waith i werthuso perfformiad staff hyfforddi a chynnwys cyrsiau.

## Adolygiad o Drefniadau Rheoli Risg yn y Gymuned a Gweithgareddau Diogelwch Cymunedol (hydref 2010)

**Rheoli Risg yn y Gymuned**

*'A yw'r Awdurdod Tân ac Achub yn nodi ac yn blaenoriaethu'r risgiau sy'n wynebu'r gymuned?' Roedd Tîm yr Asesiad Cymheiriad wedi gallu cadarnhau bod yr Awdurdod yn nodi ac yn blaenoriaethu'r risgiau sy'n wynebu'r gymuned.*

- Mae'r Awdurdod yn defnyddio amrywiaeth o fforymau strategol a fforymau ymarferwyr i lywio'r broses o ddatblygu'r Cynllun Lleihau Risg (RRP) a cheir tystiolaeth gadarn i ddangos bod aelodau'r Awdurdod Tân yn chwarae rhan effeithiol.
- Cadarnhaodd tystiolaeth fod yr Awdurdod wrthi'n gweithio i ymgynghori mor eang â phosibl, gan gynnwys defnyddio dulliau arloesol o godi ymwybyddiaeth o'r broses ymgynghori drwy wefannau rhwydweithio cymdeithasol.
- Mae'r Awdurdod yn defnyddio'r amrywiaeth o ddata sydd ar gael i lywio ei broses RRP. Mae lle i wella trefniadau'r Awdurdod ar gyfer trosglwyddo data proffiliau cymunedol i'r adran Cynllunio a Pherfformiad Strategol (SP&P) ac allan ohoni er mwyn lleihau'r risg o ddyblygu data.
- Mae'r Awdurdod yn cydnabod nad yw data presennol ei broffil cymunedol mor gynhwysfawr ag yr hoffai ac mae'n gweithio i wella'r sefyllfa.
- Mae'r Awdurdod yn dysgu drwy gynnal adolygiadau ac archwiliadau ffurfiol o ganlyniadau amcanion ac ymatebion i ymgynghoriadau. Gellid ymestyn hyn i gynnal adolygiad ffurfiol o'r broses ddatblygu RRP.

**Diogelwch Cymunedol**

*'A oes gan yr Awdurdod Tân ac Achub drefniadau effeithiol ar waith i sicrhau Diogelwch Cymunedol yn unol â risgiau a blaenoriaethau a nodwyd?' Roedd Tîm yr Asesiad Cymheiriaid wedi gallu cadarnhau bod gan yr Awdurdod drefniadau effeithiol ar waith i sicrhau diogelwch cymunedol yn unol â risgiau a blaenoriaethau a nodwyd.*

- Mae'r Awdurdod yn darparu amrywiaeth eang o fentrau diogelwch cymunedol penodol er mwyn lleihau'r risgiau a nodwyd yn y gymuned i'r eithaf.
- Mae'r Awdurdod wedi datblygu a gweithredu Strategaeth gadarn ac effeithiol ar Ddiogelwch Cymunedol ac mae'n cydnabod y manteision sydd ynghlwm wrth ymgysylltu ag ystod ehangach o bartneriaid.
- Mae tystiolaeth glir i gysylltu rhanddeiliaid â'r broses o gyflawni'r strategaeth diogelwch cymunedol ond nid oedd rhanddeiliaid yn teimlo eu bod wedi cyfrannu'n ffurfiol at ei datblygu. Dengys tystiolaeth fod yr adborth a geir o waith Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a phartneriaethau eraill yn dylanwadu mewn modd anffurfiol a pharhaus ar y gwaith o ddatblygu'r strategaeth diogelwch cymunedol.

- Canfu PAT enghreifftiau da o ganlyniadau buddiol yn sgîl mentrau partneriaeth.
- Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod angen gwella'r trefniadau presennol ar gyfer mesur a gwerthuso mentrau Diogelwch Tân Cymunedol, sy'n faes sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.
- Mynegodd partneriaid gefnogaeth a pharch aruthrol i'r partneriaethau sydd ganddynt â'r Awdurdod.

# Atodiad 7

## Cyfeiriadau

Daw'r holl ddata y cyfeirir ato yn yr adroddiad o'r ffynonellau canlynol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru, StatsCymru
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, ystadegau cryno ardaloedd lleol
- Gwefannau a chynlluniau gwella'r awdurdod gwella ei hun
- Adroddiadau Asesiad gan Gymheiriaid ar Sicrwydd Gweithredol y Gwasanaethau a gyflenwir 2009-10 a 2010-11
- The Wales Yearbook
- Y Swyddfa Gartref
- Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- Arolwg Iechyd Cymru 2008-09